
*Rhif*: ***24*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Bae Sain Ffraid**




**ACM24: Bae Sain Ffraid**

---



*Bae Sain Ffraid o Niwgwl*



*Bae Sain Ffraid o Nab Head gyda Sgomer i'r chwith*



– *Yr olygfa o'r môr i'r gogledd o Sgomer*
–

| Disgrifiad Cryno |
| --- |
| Canol Bae Sain Ffraid i ffwrdd oddi wrth yr arfordir sy'n cynnwys tywod mwdlyd, pwysedd tonnau isel a llif llanwol cyfyngedig. Defnyddir yr ardal fel angorfa ar gyfer tanceri ger Aberdaugleddau. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Mae'r môr tua 20m o ddyfnder wrth ganol Bae Sain Ffraid gyda gwely'r môr yn dywod mwdlyd a phwysedd y tonnau'n isel.<br>• Rhan o ACA Sir Benfro Forol.<br>• Mae yna sawl llongddrylliad yn yr ardal gan gynnwys awyrennau, sy'n arwydd o'i defnydd milwrol yn y gorffennol.<br>• Defnyddir yr ardal gan gychod masnachol sy'n angori tra'n aros i fynd i mewn i Aberdaugleddau ac i bysgota.<br>• Defnyddir yr ardal ar gyfer cychod dydd modur, mordeithio modur a hwyliau a hwylio dingis.<br>• Gellir gweld y tir ar bob adeg pan fydd gwelededd yn dda gyda natur gaeedig yn dibynnu ar bellter a Charn Llundain ar Ynys Dewi, Sgomer ac aneddiadau amrywiol yn dirnodau allweddol.<br>• Bae agored, eang iawn, ar raddfa fawr, gyda chymeriad morol syml, cyson ac unedig sydd bron heb ei ddifetha, gydag ymdeimlad agored, pellennig a noeth sylweddol yn cynyddu tua'r gorllewin.<br>• Pennir nodweddion yr ardal i raddau helaeth gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt.<br>• O'r tir, mae'r ardal yn rhan bwysig o'r golygfeydd godidog o Ynys Dewi ac Ynys Sgomer, a Llwybr yr Arfordir. |
| **Nodweddion Ffisegol** |
| Llawr bas (<30 m) y mor, sydd ar oledd ysgafn tua'r gorllewin (<1°) yn graddio oddi ar y lan o dywod mwdlyd (<20m) i dywod graeanog, sy'n agored i bwysedd isel y tonnau. Tu allan i'r bae, mae cerhyntau llanwol sydd wedi eu gosod i'r gogledd a'r de. Prin iawn yw'r llif llanwol yn y bae, er bod llif llanwol bach yn llifo tua'r de ar hyd yr arfordir ar anterth y gorlif gogleddol. Mae'r gwaddodion yn gorchuddio craigwely o dywodfaen a sialau, Carbonifferaidd Uwch gan fwyaf ar draws canol y bae.<br><br>Mae'r ardal yn rhan o ACA Sir Benfro Forol. |
| **Dylanwad diwylliannol** |
| Yn hanesyddol, mae'r bae wedi herio morwyr. Mae'r porthladdoedd sy'n gysylltiedig â'r llongddrylliadau yn cadarnhau llwybrau a chysyllteddau sy'n ymestyn at y Baltig ac i'r Americas.<br><br>Mae llongddrylliadau yn cynnwys y rheiny a oedd yn hwylio i borthladdoedd, neu oddi yno, neu wedi eu cofrestru yno, yng Nghanada, Iwerddon, Virginia, Philadelphia, Efrog Newydd, Ffrainc a Rwsia. Mae rhai  o awyrennau'r Llu Awyr Brenhinol a gollwyd yn y 1960au hefyd wedi eu cofnodi yma, gan adlewyrchu defnydd yr ardal ar gyfer teithiau hedfan ymarfer.<br><br>Disgrifiwyd drylliad yr Increase ym 1791 a'r ffrwydrad canlynol gan ddeiliad Plwyf Nolton, y Parch. Moses Grant. Fel arall, y cysylltiadau diwylliannol yw'r peryglon yn yr ardal hon i forwyr fel rhan o hanes masnach morwrol Cymru.<br><br>Mae pysgota o'r môr o gychod yn boblogaidd ar draws y Bae yn ogystal â hwylio dingis, cychod dydd modur, cychod mordeithio modur a hwyliau. Yn aml, mae hyd at 10 o gychod masnachol yn y Bae yn aros i fynd i mewn i Ddociau Aberdaugleddau. Gellir eu gweld yn erbyn y gorwel ac yn agosach tua'r lan gan ddibynnu ar amodau'r tywydd.<br><br>Mae'r pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch, gwichiaid mor a chrancod mewn potiau a'r potensial ar gyfer mân-dreillio estyllod.<br><br>Defnyddir yr ardal i angori tanceri ac yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar |

| |
|---|
| gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol. |
| **Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Ymwelwyd â dyfroedd deheuol yr ardal hon. Dylanwadir arnynt gan Benrhyn Sgomer a Marloes i'r de gyda'r arfordir gogleddol a dwyreiniol yn teimlo'n bell. Mae'r bae'n teimlo'n fawr iawn ac yn noeth ac agored. Mae'r arfordir yn amlwg pan fydd gwelededd yn dda gyda'r manylder yn dibynnu ar gyfeiriad yr haul. Carn Llundain ar Ynys Dewi yw'r prif dirnod i'r gogledd ac mae aneddiadau fel Aber Llydan a Solfach uwch yn amlwg ar lethrau arfordirol. Ar bellter, mae'r tirffurf yn ymddangos fel llinell un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml. Yn agosach i mewn, fe fydd manylder a gwahanu'r crynswth tir yn amlwg.<br><br>Mae gan y bae gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa fawr ac ymdeimlad agored, ynysig a noeth. Pennir y rhinweddau i raddau helaeth gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonnau a gwynt, ac mae gwelededd yn pennu effaith y tir. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin ac mewn amodau tywydd gwael mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Mae yna debygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn yr ardal hon. Mae bywyd gwyllt yn cynyddu cyfoeth profiad y morwedd.<br><br>Fe fydd golygfeydd o gychod masnachol ar y rhan fwyaf o adegau o'r flwyddyn a chychod hamdden yn ystod y tymor. Fe fydd hyn yn gostwng yr ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch o fewn yr ardal hon.<br><br>O'r tir, mae'r ardal yn rhan bwysig o'r golygfeydd gwych o Ynys Dewi ac Ynys Sgomer, a Llwybr yr Arfordir. |
| **Buddion diwylliannol a gwasanaethau** |
| Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol, at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol y môr a gwely'r môr sydd, i raddau, heb eu difetha, ac at wasanaethau ysbrydol mewn perthynas ag ymdeimlad o wylltineb a chysylltedd â natur. |

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Rhesymau cyfyngedig dros newid mewn bae mawr gweddol gysgodol.

Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.

Fe allai'r defnydd gan danceri gael effeithiau niweidiol a allai gynyddu gyda chynnydd mewn traffig e.e. LNG.

**Rhesymau allweddol dros newid**

<table>
<tr><th>Rhinweddau Arbennig</th><th>Prosesau naturiol/newid hinsawdd</th><th>Gwasgedd ymwelwyr</th><th>Defnydd morol - masnachol a physgota</th><th>Egni ar y môr</th><th>Gwasgedd datblygiad</th><th>Newidiadau rheoli tir</th><th>Defnydd MOD</th></tr>
<tr><td>Ysblander yr Arfordir</td><td></td><td></td><td style="background:#95b3d7"></td><td style="background:#95b3d7"></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Ynysoedd</td><td></td><td></td><td style="background:#95b3d7"></td><td style="background:#95b3d7"></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Amrywiaeth y Tirlun</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch</td><td></td><td></td><td style="background:#95b3d7"></td><td style="background:#95b3d7"></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Daeareg Amrywiol</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth</td><td></td><td></td><td style="background:#95b3d7"></td><td style="background:#95b3d7"></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Archeoleg Gyfoethog</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cymeriad Anheddiad Nodedig</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Treftadaeth Ddiwylliannol</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Mynediad i'r Parc</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Lle i Anadlu</td><td></td><td></td><td style="background:#95b3d7"></td><td style="background:#95b3d7"></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Allwedd</td><td style="background:#8db3e2"></td><td colspan="6">Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig</td></tr>
</table>

## Sensitifeddau allweddol

Cymeriad syml, agored, gwyllt ac anghysbell gyda golygfeydd o'r arfordir gorllewinol ac ynysoedd.

Mae'n ffurfio rhan o'r gosodiad agored ar gyfer arfordir y gorllewin a'r ynysoedd gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn edrych drosti gan gyfrannu at yr ymdeimlad o bellenigrwydd a gwylltineb yn yr ardaloedd hyn.

Gwerth o ran gwarchod natur forol.

Llwybr Arfordir Sir Benfro a Chymru fel derbynnydd sensitif yn edrych allan dros yr arall o bellter.

Presenoldeb cychod wrth eu hangor.